sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Y Sianel BBC Scotland newydd

## Penderfyniad ynghylch amrywio Trwydded Weithredu Ofcom ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y BBC

**DATGANIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 31 Ionawr 2019

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 1

# 1. Trosolwg

**Ar 24 Chwefror 2019 bydd y BBC yn lansio ei sianel BBC Scotland newydd ("BBC SC ") a bydd gwasanaeth optio allan BBC Two Scotland yn rhoi'r gorau i ddarlledu**. Mae'r Datganiad hwn yn nodi Penderfyniad Ofcom mewn perthynas ag amrywio'r Drwydded Weithredu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y BBC ("y Drwydded ")[1] i ymgorffori'r "BBC SC " newydd.[2]

## Ein penderfyniad – yn gryno

Rydym wedi penderfynu diwygio'r Drwydded yn y meysydd canlynol:

**Rydyn ni'n egluro sut dylid trin BBC SC (a BBC Alba) mewn perthynas â gofynion ar gyfer gwneud rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau.** Bydd rhaglenni sy'n cael eu dangos ar BBC SC a BBC Alba yn cael 'pwysoliad o sero' ar gyfer rhai cwotâu rhwydwaith.

**Rydyn ni'n nodi sut dylai rhaglenni sy'n cael eu comisiynu ar y cyd gan wahanol wasanaethau teledu'r BBC gael eu trin at ddibenion rhai cwotâu.** Rydyn ni'n cyflwyno amodau newydd sy'n egluro sut dylai'r BBC adrodd yn erbyn cwotâu oriau a gwariant yn ei Drwydded wrth ddelio â chynnwys sy'n cael ei gomisiynu ar y cyd â gwasanaethau eraill y BBC, fel BBC One, BBC Two a BBC Four. Credwn fod y newidiadau'n creu'r cymhellion iawn i'r BBC ystyried cyfleoedd i gomisiynu rhaglenni ar y cyd, ar yr un pryd â sicrhau cynnwys o safon ar BBC SC er budd gwylwyr yn yr Alban.[3]

**Rydyn ni'n dileu pob cyfeiriad at wasanaeth optio allan BBC Two Scotland o'r Drwydded, er mwyn adlewyrchu bod y gwasanaeth yma yn dod i ben pan fydd BBC SC yn cael ei lansio.** Fodd bynnag, drwy wneud hynny rydyn ni'n trosglwyddo rhai o'r amodau a arferai fod yn berthnasol i BBC Two Scotland i BBC SC. Rydyn ni hefyd yn diwygio rhai cwotâu oriau a arferai fod yn berthnasol i elfennau optio allan amrywiol BBC One a BBC Two gyda'i gilydd, i adlewyrchu bod BBC Two Scotland yn dod i ben.

**Rydyn ni'n rhoi gofynion trwydded ychwanegol ar BBC SC.** Bydd y rhain yn sicrhau: bod o leiaf 250 awr o gynnwys newyddion yn cael ei ddarlledu ar y BBC SC yn ystod y cyfnod gwylio brig; bod 75% o raglenni BBC SC yn gynyrchiadau gwreiddiol; a bod o leiaf 90% o raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar y sianel newydd yn cael eu gwneud yn yr Alban.

**Crynodeb syml lefel uchel yw hwn yn unig. Mae'r penderfyniadau rydym wedi eu gwneud, a'n rhesymeg dros eu gwneud, wedi'u nodi yn y ddogfen lawn isod.**

1.1 Y BBC yw'r darparwr cyfryngau sy'n cael ei ddefnyddio'n fwyaf helaeth yn y DU, ac mae'n cynnig rhaglenni teledu a radio, yn ogystal â chynnwys ar-lein. Mae gan y cyhoedd ddisgwyliadau eithriadol o uchel o'r BBC yn sgil ei rôl fel darlledwr sy'n cael ei ariannu gan y cyhoedd a chanddo gylch gwaith i hysbysu, addysgu a diddanu'r cyhoedd, yn ogystal â chefnogi'r economi greadigol ledled y DU.

[1] Cyhoeddodd Ofcom y fersiwn gyntaf o'r Drwydded Weithredu ar 13 Hydref 2017 a fersiwn ddiwygiedig o'
[2] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0020/107075/bbc-operating-licence-cymraeg.pdf
[3] Gweler 2.12-17

1.2 Er mwyn diwallu'r disgwyliadau hyn, rhaid i'r BBC gyflawni'r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus sydd wedi'u nodi yn ei Siarter, gan gynnwys y gofyniad i ddarparu'r allbwn mwyaf creadigol, unigryw ac o'r ansawdd gorau. Mae Diben Cyhoeddus (4) yn ei gwneud yn ofynnol bod y BBC yn adlewyrchu, yn cynrychioli ac yn gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, ac yn cefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig drwy wneud hynny.[4] Mae'r dibenion cyhoeddus cael eu hategu gan ragor o rwymedigaethau manwl yn y Cytundeb.

1.3 Mae Ofcom yn dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth a hyrwyddo ei ddibenion cyhoeddus, fel y nodir yn ei Siarter. Un o'r ffyrdd rydym yn gwneud hynny yw pennu Trwydded Weithredu sy'n cynnwys cyfres o amodau rheoleiddio y mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â nhw. Cyhoeddodd Ofcom y Drwydded gyntaf ym mis Hydref 2017.

1.4 Rhaid i Ofcom osod rhwymedigaethau ar y BBC i sicrhau bod digon o amser rhwydwaith y BBC yn cael ei roi i raglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol o ansawdd uchel, a bod hynny'n cael ei wneud yn yr ardaloedd perthnasol.

1.5 Mae'r Cytundeb yn mynnu bod rhaid i Ofcom, wrth osod amodau rheoleiddio, roi sylw penodol i ymrwymiad y BBC i sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw, ac mai un ffactor wrth ystyried natur unigryw yw faint o allbwn gwreiddiol a gynhyrchir yn y DU.[5]

1.6 Mae'r Cytundeb yn diffinio dau fath o raglenni y mae'n rhaid i Ofcom osod amodau ar eu cyfer: "rhaglenni rhwydwaith " a "rhaglen[ni] o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol ". Mae'r rhain yn cynnwys gofynion bod cyfran o raglenni'n cael eu gwneud y tu allan i ardal yr M25, yn yr Alban (yn yr un modd â phob Gwlad), bod modd priodoli cyfran addas o wariant y BBC i ganolfannau cynhyrchu y tu allan i'r M25, a bod amrywiaeth o ganolfannau cynhyrchu yn cael eu defnyddio.[6]

1.7 Mae'r Drwydded a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017 yn cynnwys cwotâu ar gyfer rhaglenni sydd o ddiddordeb i gynulleidfaoedd ym mhob gwlad, gan gynnwys yr Alban, a darpariaeth ar gyfer y cynnwys ar wasanaeth optio allan BBC Two Scotland. Oherwydd bydd y gwasanaeth hwn yn dod i ben pan fydd y sianel newydd yn cael ei lansio, ar 24 Chwefror 2019, mae Ofcom yn credu bod angen i ni ddiwygio'r Drwydded Weithredu i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

1.8 Ym mis Tachwedd 2017, fe wnaeth y BBC gyhoeddi cynigion ar gyfer sianel deledu BBC Scotland. Fe wnaeth Ofcom gynnal asesiad o gystadleuaeth y BBC[7] – cyfeirir ato fel y "BCA" yma – i weld a fyddai'r gwerth cyhoeddus a gynigir gan sianel newydd y BBC yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau niweidiol posibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Ar 26 Mehefin 2018,

[4] Yng ngweddill y ddogfen hon, defnyddir y "Siarter " i gyfeirio at y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig. Defnyddir y "Cytundeb" i gyfeirio at y Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig.
[5] Atodlen 2 Adran 1 y Cytundeb
[6] Atodlen 2 Adran 7. (1) (a) i (e) yn y Cytundeb
[7] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0010/115201/Asesiad-Cystadleuaeth-ar-BBC-Scotland.pdf

gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad,[8] sef y gallai'r BBC fwrw ymlaen i lansio'r sianel newydd.

1.9 O ganlyniad i hynny, rydym wedi cyhoeddi ymgynghoriad[9] yn nodi ein cynigion i addasu trwydded weithredu'r BBC ("yr Ymgynghoriad ") ar 29 Awst 2018.

## Cefndir

1.10 Ym mharagraffau 1.5 i 1.22 o'r Ymgynghoriad, gwnaethom nodi:

- cefndir BBC SC, gan gynnwys y cynigion ar gyfer y sianel newydd a gyhoeddwyd gan y BBC ar 30 Tachwedd 2017 yn ei Brawf Lles y Cyhoedd (PIT)[10] ei hun, a phenderfyniad Ofcom i ganiatáu i'r BBC fwrw ymlaen â BBC SC, a gyhoeddwyd ar 26 Mehefin 2018.
- yr ymrwymiadau mae Siarter a Chytundeb y BBC yn eu creu yn y maes hwn;
- yr amodau sy'n ymwneud â'r Alban yn y Drwydded bresennol.

## Amcanion yr Ymgynghoriad i Sianel BBC Scotland

1.11 Fe wnaethom gynnig diwygio'r Drwydded mewn pum ffordd, er mwyn[11]:

a) nodi sut dylid trin rhaglenni BBC SC mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer gwneud rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau, (cododd hyn gwestiwn ynghylch triniaeth BBC Alba felly rydym wedi ceisio egluro hynny)

b) nodi sut dylai rhaglenni sy'n cael eu comisiynu gan wahanol wasanaethau'r BBC gael eu hystyried at ddibenion ystyried rhai cwotâu

c) cael gwared â'r holl gyfeiriadau at wasanaeth optio allan BBC Two Scotland yn y Drwydded

d) cadw rhywfaint o rwymedigaethau gwasanaeth optio allan BBC Two Scotland a'u defnyddio yng nghyswllt BBC SC

e) ychwanegu gofyniad at y Drwydded sy'n ei gwneud yn ofynnol bod BBC SC yn darlledu newyddion yn ystod y Cyfnod Gwylio Brig.

1.12 Fe wnaethom hefyd ddelio â dau fater arall cysylltiedig. Yn benodol:

a) pa fesurau perfformiad mae Ofcom wedi cynnig eu defnyddio i asesu perfformiad BBC SC

b) fe wnaethom gynnig asesu perfformiad BBC Two Scotland yn erbyn y Drwydded er mwyn ystyried y ffaith y bydd yn cael ei ddiffodd yn ystod y flwyddyn perfformiad, 2019.

---

[8] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0016/115270/BBC-scotland-statement.pdf
[9] https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/variation-operating-licence-bbc-public-services
[10] http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/accountability/consultations/bbc_public_interest_test_submission.pdf
[11] Adran 1.23 o'r Ymgynghoriad i Sianel BBC Scotland

## Ymatebion i'r Ymgynghoriad i Sianel BBC Scotland

1.13 Fe gawsom naw ymateb i'n Hymgynghoriad, gan: y BBC, STV, PACT, MG Alba, Llywodraeth yr Alban, Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban; a thri unigolyn. Rydym wedi ystyried pob ymateb wrth lunio ein casgliadau ac rydym wedi cyhoeddi pob ymateb yn llawn ar ein gwefan.[12]

1.14 Yn ogystal â gwneud sylwadau ar y diwygiadau penodol a gynigiwyd ar gyfer y Drwydded, fe wnaeth yr ymatebwyr sylwadau ynghylch effaith bosibl y sianel newydd ar y sector darlledu yn yr Alban, comisiynu cynyrchiadau ar y cyd, gofynion ynghylch yr iaith Aeleg a Gaeleg yr Alban, a rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, yn ogystal â threfniadau recriwtio, cyllid ac amserlennu'r BBC ar gyfer y sianel newydd. Roedd PACT a Llywodraeth yr Alban yn cytuno'n gyffredinol â strwythur ein hamrywiadau arfaethedig, ond roedd darlledwyr eraill yn cwestiynu effaith niweidiol bosibl y sianel newydd ar dirwedd cyfryngau'r Alban.

1.15 Yn Adran Dau y ddogfen hon rydyn ni'n crynhoi'r sylwadau a wnaed gan ymatebwyr, yn asesu'r dadleuon a gafodd eu cyflwyno ac yn nodi'r casgliadau rydyn ni wedi dod iddynt.

## Casgliadau a'r camau nesaf

1.16 Ar sail y dadansoddiad a nodir yn Adran Dau, rydym wedi penderfynu diwygio Trwydded Weithredu'r BBC. Rydyn ni wedi atgynhyrchu'r Drwydded ddiwygiedig yn llawn yn Atodiad Un, a'r Hysbysiad Ffurfiol o Amrywiad yn Atodiad Dau.

1.17 Bydd y diwygiadau a nodir uchod yn dod i rym ar 24 Chwefror 2019.

[12] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/variation-operating-licence-bbc-public-services